- This is not true integration, which was intended (as set out in the Rome Treaty) to ensure that principles are embedded across all aspects of policy, rather than just those with an obvious link to the environment.
- WWF welcomes the application of ‘special regard’ to Welsh Ministers and NRW. This is the highest iteration of regard and shall hopefully ensure that the principles are properly exercised. Doing so does however highlight that other public authorities need only to have ‘regard’ to them.
- It can be argued that it is appropriate that NRW and Welsh Ministers have a higher regard due to the scope of their work, yet we would recommend stronger, more proactive wording is found for other public authorities – such as the requirement to ‘enact’ the principles in decision making.
- Furthermore, the environmental principles duty only applies to them when carrying out functions connected to Strategic Environmental Assessments (SEA), yet it is unclear what is meant here practically. This is something which needs to be explored as the Bill develops.
- A wider point to be made is the attempt to integrate the principles with the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. The approach taken in Section 4 of the Bill is problematic as it attempts to place the principles within the scope of the FG Act, despite the reality that the FG Act itself was developed within the context of the principles as they applied in EU law.
- Removing (due to Brexit) and then inserting the FG Act in this way risks confusing and diluting the strength of the principles as their focus on environmental protection and improvement is lessened as they would now also have to account for wider FG Act ambitions. We suggest this reference is removed.
- Finally, the review process for the principles and integration statement is weak with a requirement to only review it ‘from time to time’. This leaves it open for a weak statement to be unchanged for political convenience. We suggest a provision is added to require the statement to be reviewed within 24 to 36 months of a Senedd election.

- Further to this we suggest that as well as being laid before the Senedd, the statement is also subject to an affirmative vote by the Senedd to add democratic legitimacy.

3. What are your views on the Bill's provisions (set out according to Parts below), in particular are they workable and will they deliver the stated policy intention?

▪ Part 2 - The Office of Environmental Governance Wales (sections 8 to 32 and Schedules 1, 2 and 3)

- WWF strongly welcomes the establishment of the Office of Environmental Governance Wales (OEGW). It has taken the Welsh Government far too long to get to this point.
- The independence of the OEGW is of critical importance, as the body will likely focus most of its monitoring and compliance activity on Welsh Ministers.
- While the Explanatory Memorandum recognises that independence is of 'paramount importance' to effective operation, the Bill itself does not provide sufficient safeguards to define and protect that independence.
- For example, the Bill is silent on the independence of the body and does not include any of the comparable safeguards that the Scottish and UK Governments built into their legislation. Specifically, the Bill should be amended to set out that Welsh Ministers have no powers of direction over the body.
- At present, there is no provision in the Bill to safeguard the body's financial security [resourcing]. This cannot be left to chance, as the goodwill of current ministers does not guarantee independence in the long term. HMG committed to provide the Office of Environmental Protection (OEP) with a ring-fenced five-year indicative budget and also included a power in the Environment Act 2021 to enable the OEP to highlight any under-resourcing to the Westminster Parliament. Similar safeguards should be considered for the Bill.
- The arrangements for appointing the body's Chair and other board members place the power in the hands of Welsh Ministers, with little input from the Senedd. This balance must be reconsidered due to the unique role

the OEGW will play on monitoring and enforcing breaches of environmental law, including by Welsh Ministers.

- WWF would encourage Committee Members to reflect on the level of engagement they would consider appropriate, such as an active and majority role in recruitment panels, rather than a role in the scrutiny of preferred Government candidates.
- The requirements in Schedule 2 on what the OEGW should include in its strategy are overly prescriptive and should be reduced to avoid further undermining the body's independence.
- The Bill does not establish a legal requirement for the body to accept complaints or representations from the public. This is a major gap in what has hitherto been considered a central purpose of a new body. Excluding a specific clause to this effect risks weakening the rights Welsh people had when the UK was a member of the EU.
- Linked to this is the need for OEGW to have the explicit power to intervene in proceedings brought by other parties (such as engagements with the High Court). This is an invaluable tool enjoyed by equivalent bodies in the rest of the UK.
- A further matter of significant concern is that the Bill requires OEGW to cede power on its enforcement decisions to a 'review committee' which will include people appointed by Welsh Ministers. This would undermine the body's governance and should be removed.
- Finally, little information has yet been provided on the timetable for setting up the new body or the transition from the non-statutory Interim Environmental Protection Assessor for Wales. While we wouldn't expect this to be in the text of the Bill, the timetable is critical and the Welsh Government should begin setting up the OEGW now, so that it can be legally established as quickly as possible, avoiding further delay.

4. What are your views on the Bill's provisions (set out according to Parts below), in particular are they workable and will they deliver the stated policy intention?

▪ Part 3 - Biodiversity targets, etc (sections 33 to 38)

- WWF remains disappointed about the lack of a headline, timebound target to reverse the decline in species abundance in line with the international community. This is a key part of biodiversity recovery and should be included in the Bill to give a clear signal of the urgency of action needed.
- Given the excessive time it has taken Welsh Government to bring forward this legislation the prospect of achieving 2030 ambitions is now unobtainable. In response Welsh Government, rather than abandoning a timebound target, should instead commit to a target of 2035. Similar targets have been set elsewhere in the UK, and we are concerned that the current Welsh Government approach fails to learn the lessons of the Environment (Wales) Act 2016, which has thus far failed to deliver the scale and pace of change intended.
- Further to this, the Bill should also set out the timeframe for wider targets, to be set in secondary legislation and make a distinction between short- and long-term targets. The equivalent HMG legislation requires long-term targets, and defines long-term as being at least 15 years. The Bill should adopt such an approach and require interim targets to be set for each Senedd until their attainment.
- Secondary legislation defining the actual targets should be brought forward within 12 months of the Bill's royal assent to ensure the next government does not delay action. If this cannot be achieved for all target areas then it should be limited to the priority areas identified in the Bill. This should be achievable given that work to define priority targets is already underway.
- One priority area defined in the Bill is the reduction of pollution. Welsh Government have ruled out acting on air pollution in this area due to existing legislation. WWF continue to urge Welsh Government to set a clear target to halve excess nutrient loss by 2030 as part of this priority area. This would reflect the COP15 agreement and drive government and public authority action to addressing freshwater pollution which remains rife across Wales.

5. What are your views on the Bill's provisions (set out according to Parts below), in particular are they workable and will they deliver the stated policy intention?

▪ **Part 4 - General (sections 39 to 45 and Schedule 4)**

6. What are the potential barriers to the implementation of the Bill's provisions and how does the Bill take account of them?

- The principal barrier remains the political unknowns facing Wales beyond May 2026. If this area is not a priority for the new Welsh Government, then the current working of the Bill will be sufficient for that government to produce a weak principles statement; not provide the OEGW with sufficient funding and independence; delay its commencement; and delay/weaken any biodiversity targets proposed.
 - It is for this reason that we make the recommendations contained in the above sections.

7. How appropriate are the powers in the Bill for Welsh Ministers to make subordinate legislation (as set out in Chapter 5 of Part 1 of the Explanatory Memorandum)

8. Are any unintended consequences likely to arise from the Bill?

- The gap over the lack of specific obligation to accept representations from the public, and for OEGW to intervene in cases brought by others could result in OEGW failing to fulfil its primary purposes. We do not believe that this is the intent of Welsh Government, nonetheless it could occur as the Bill is currently drafted.

9. What are your views on the Welsh Government's assessment of the financial implications of the Bill as set out in Part 2 of the Explanatory Memorandum?

- The costings contained in the EM appear realistic.

10. Are there any other issues that you would like to raise about the Bill and the accompanying Explanatory Memorandum or any related matters?

Defnyddiwch y templed hwn i lunio'ch ymatebion i'w cyflwyno drwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein.

Tystiolaeth gan: Cyfoeth Naturiol Cymru

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee

Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) | Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Bill

Nid oes angen i chi ateb pob cwestiwn, dim ond y rhai yr hoffech rannu gwybodaeth neu gyflwyno barn arnynt.

1. Beth yw eich barn am egwyddorion cyffredinol y Bil, ac a oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

Mae'r Bil yn darparu'r fframwaith cyfreithiol angenrheidiol i ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yn gyson ac yn dryloyw ar draws polisi cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn hanfodol i fynd i'r afael â bylchau mewn llywodraethiant amgylcheddol yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Er bod egwyddorion amgylcheddol sy'n deillio o'r UE (yr egwyddor ragofalus, yr egwyddor ataliol, yr egwyddor cywiro yn y ffynhonnell, a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu) yn sail i lawer o'n fframwaith deddfwriaethol presennol, gan gynnwys drwy'r ddyletswydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'r Bil yn ofyniad angenrheidiol i sicrhau bod eu cymhwysiad yn eglur ac yn atebol ac mae'n darparu gofyniad statudol ar draws y gwaith o wneud penderfyniadau.

Dylai'r datganiad, os yw wedi'i gynllunio'n dda, gryfhau'r aliniad rhwng egwyddorion amgylcheddol a dyletswyddau statudol eraill, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae deddfwriaeth yn rhoi statws cyfreithiol ac eglurder wrth gymhwyso egwyddorion amgylcheddol, gan sicrhau cysondeb ac atgyfnerthu integreiddio diogelu'r amgylchedd mewn prosesau gwneud penderfyniadau ehangach.

I'r corff llywodraethiant, mae diben y polisi wedi'i fynegi'n glir yn ystod datblygiad y ddeddfwriaeth ddrafft ac o fewn y meysydd a nodwyd yn y Datganiad o Fwriad y Polisi. Ers gadael yr UE, Cymru yw'r unig ran o'r DU heb gorff statudol ar gyfer goruchwyllo'r gyfraith amgylcheddol sy'n gweithredu. Er na fydd Cymru yn gallu efelychu'r drefniant o dan yr UE yn llawn, mae creu corff llywodraethu newydd yn darparu lefel briodol o graffu domestig ar gyfraith amgylcheddol. Mae sicrhau bod Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLIAC) a'i swyddogaethau wedi'u diffinio mewn statud yn darparu gweithrediad cadarn a phriodol o amcanion y polisi.

Mae darpariaethau'r Bil yn adlewyrchu ac yn cyd-fynd ag ymrwymadau rhyngwladol megis nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, Cytundeb Paris, Ramsar, Confensiwn Bern, Deddf Newid Hinsawdd y DU a'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fydeang. Maent hefyd yn unol â dyletswydd datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru, a ymgorfforir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dull rheoli ar lefel yr ecosystem y Cenhedloedd Unedig, a'r amcanion hinsawdd a ymgorfforir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. 2. Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl eu rhannau isod)? Yn benodol, a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 1 – Amcan ac egwyddorion amgylcheddol (adrannau 1 i 7)**

Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth a nodir yn Rhan 1 o'r Bil ac yn ei gweld yn angenrheidiol i sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu hymgorffori mewn penderfyniadau cyhoeddus yng Nghymru.

Adran 1 Amcan amgylcheddol

Rydym yn cefnogi cynnwys amcan amgylcheddol lefel uchel. Mae hyn yn nodi'r disgwyliad bod rhaid i bob dyletswydd a swyddogaeth ddilynol o dan y Bil, megis cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol, y fframwaith llywodraethiant a thargedau bioamrywiaeth, gyfrannu at welliant amgylcheddol ac nid dim ond osgoi niwed.

Adran 2-5 Dyletswydd egwyddorion amgylcheddol. Rydym yn croesawu estyniad y ddyletswydd i Cyfoeth Naturiol Cymru gan ei fod yn cyd-fynd â'n dyletswyddau a'n cyfrifoldebau presennol. Rydym yn cynghori y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn y ddyletswydd "ystyriaeth arbennig" yn ehangach i awdurdodau cyhoeddus allweddol eraill, yn enwedig i'r rhai sydd ag

effeithiau sylweddol ar ddefnydd tir, seilwaith, cynllunio a datblygu economaidd. Byddai cymhwyso'r egwyddorion mewn ffordd gymesur ar draws pob awdurdod cyhoeddus yn gwella'r ddarpariaeth drwy'r gallu i gyflawni canlyniadau polisi mwy integredig. Bydd yn galluogi atebolrwydd ar y cyd a chymhwyso cyson ar draws cyrff cyhoeddus Cymru.

Croesewir y ddyletswydd i roi 'ystyriaeth arbennig' i egwyddorion amgylcheddol sy'n deillio o'r UE. Mae cynsail cyfreithiol presennol i "roi ystyriaeth arbennig" wedi'i sefydlu gan y Llys Apêl mewn sawl achos, megis Barnwell Manor Wind Energy Ltd v East Northamptonshire District Council (2014), fel un sy'n ei gwneud yn ofynnol i wneuthurwyr penderfyniadau roi "pwysigrwydd a phwysau sylweddol". Mae hyn yn nodi bod rhaid rhoi pwysau sylweddol, a blaenoriaeth, i'r egwyddorion amgylcheddol.

Er mwyn cyflawni diben bwriadedig y ddyletswydd, rhaid ei chyfleu'n dda i sicrhau bod deiliaid y ddyletswydd yn deall y pwysau cyfreithiol ac yn cymhwyso'r ddyletswydd yn gywir ac yn gyson. Heb eglurder, mae risg bod y ddyletswydd yn cael ei chamddehongli neu ei chymhwyso'n arwynebol, gan felly danseilio ei heffaith fwriadedig.

Rydym yn argymhell y canlynol i helpu i gynorthwyo gweithrediad effeithiol:

- Bod ystyr bwriadedig y term 'ystyriaeth arbennig' wedi'i gyfleu'n glir yn adran 42 gan fod risg y caiff ei gamddehongli fel 'ystyriaeth ddyledus' yn unig, a fyddai'n gwanhau ei effaith gyfreithiol ac ymarferol.
- Dylid ystyried pob egwyddor yn fwriadol gyda gofyniad i ddangos tystiolaeth o sut mae pob un wedi dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau (e.e. lliniaru, dewisiadau amgen, monitro, cydbwysu a gwella).
- Argymhellir y dylid darparu canllawiau clir i fynd i'r afael â fframio goddrychol a thermau fel 'ymagwedd meddwl agored' sydd mewn perygl o gael eu cymhwyso'n anghyson a chael eu camddehongli fel dyletswydd feddal neu symbolaidd. Dylai canllawiau clir ac enghreifftiau darluniadol egluro termau amwys.
- Mae angen cyfleu'r negeseuon ynghylch termau a phwysau mewn modd effeithiol i bawb.

Rydym yn cefnogi'n gryf gynnwys yr egwyddor integreiddio gan ei bod yn gwella cydlyniant ac yn alinio dyletswyddau ar draws polisi a fframweithiau cyfreithiol. Mae'n annog cyrff cyhoeddus i ystyried sut mae diogelu'r amgylchedd yn cefnogi amcanion ehangach (megis iechyd) sy'n adlewyrchu dull Cymru o ddatblygu cynaliadwy.

Adran 6 Datganiad egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio

Mae cyhoeddi datganiad egwyddorion amgylcheddol statudol a datganiad integreiddio yn hanfodol er mwyn darparu ffordd ymarferol o gynnal parhad wrth gymhwyso'r egwyddorion i sicrhau dehongliad a gweithrediad cyson ar draws cyrff cyhoeddus.

Mae'r egwyddorion wedi'u hategu gan ddegawdau o wneud penderfyniadau amgylcheddol ar raddfa'r UE ac yn rhyngwladol. Byddai trosolwg o'u cyd-destun cefndir o ran eu tarddiad cyfreithiol, eu datblygiad a'u cymhwysiad yn helpu i gefnogi parhad safonau a lleihau'r risg o wahaniaeth a chymhwyso gwan er mwyn cynnal lefelau uchel o warchodaeth amgylcheddol.

Dylid llunio'r ddyletswydd integreiddio mewn modd rhagweithiol, gan ei gwneud yn ofynnol i atal niwed a nodi a mynd ar drywydd cyfleoedd i adfer a gwella ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu, a'u diogelu at y dyfodol. Dylai hyn helpu i newid ein dull diwylliannol o osgoi risg i annog ystyriaeth weithredol o gyfleoedd ar gyfer budd amgylcheddol ac nid dim ond lleihau niwed.

O ystyried maint a brys yr argyfyngau hinsawdd a natur, rydym yn cefnogi bwriad yr amcan ac egwyddorion amgylcheddol. Mae'n adlewyrchu ethos rhagweithiol Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys cyflawni gwelliannau i fioamrywiaeth. Mae'r ddyletswydd yn cyd-fynd ymhellach â Deddf yr Amgylchedd a'r Ddeddf Amaethyddiaeth i wella gwydnwch ecosystemau a buddion i bobl, hyrwyddo meddwl hirdymor, ac annog defnyddio dulliau ataliol ac addasol.

Adran 7 Dyletswydd i awdurdodau cyhoeddus gynnal Aseidiadau Amgylcheddol Strategol

Mae'r gofyniad i bob awdurdod cyhoeddus ystyried yr egwyddorion amgylcheddol wrth gynnal Aseidiadau Amgylcheddol Strategol yn gymesur. Rydym yn argymhell ymestyn y ddyletswydd i ystyried yr egwyddorion i bob awdurdod cyhoeddus er mwyn galluogi cymhwyso'r egwyddorion yn ehangach ar lefel leol a rhanbarthol.

3. Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl eu rhannau isod)? Yn benodol, a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 2 – Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (adrannau 8 i 32 ac atodlenni 1, 2 a 3)**

Ar y cyfan, mae sefydlu a swyddogaethau Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLIAC) yn ymddangos yn synhwyrol ac yn gymesur i gyflawni'r bwriadau polisi ar gyfer goruchwylio cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Rydym yn croesawu sefydlu SLIAC fel sefydliad ar wahân ac annibynnol, a gellir crynhoi ein barn fel a ganlyn:

- Mae'r gofynion *diben cyffredinol* yn adran 9 yn rhoi cyfeiriad strategol ac egwyddorion digonol i arwain gweithredoedd SLIAC, er y gallai ychwanegu 'a chydag uniondeb' at adran 9(b) bwysleisio'r safonau gofynnol ac adlewyrchu eu pwysigrwydd o fewn y dirwedd ddeddfwriaethol.
- Croesewir y dull cynyddol arfaethedig y dylai SLIAC ei fabwysiadu. Bydd mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a gweithredu yn unol â Chod y Rheoleiddwyr, yn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i gyflawni'r canlyniad gorau mewn modd effeithlon ac amserol.
- Mae gallu SLIAC i weithredu'n hyblyg a chyda disgrisiwn o bwys allweddol. Byddem yn annog peidio â chyflwyno mecanweithiau i gyfyngu ar weithredoedd y sefydliad (megis ar gyfer y disgrisiwn sydd ganddo o ran pynciau ymchwilio neu o ran ei rinwedd cynghori).
- Mae'r ddarpariaeth yn Atodlen 2 y Bil, sy'n ei gwneud yn ofynnol i SLIAC nodi yn ei strategaeth sut y bydd yn ceisio osgoi gorgyffwrdd ag CNC wrth arfer ei swyddogaethau, yn ddigonol i leihau gorgyffwrdd posibl yn ein dyletswyddau rheoleiddiol. Cefnogir hyn gan y memorandwm esboniadol.
- Yn Atodiad 2 **ei chyflwyniad** i Adolygiad y Panel o Lywodraethiant Amgylcheddol yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yn tynnu sylw at rinweddau rheoleiddio amgylcheddol effeithiol, y mae llawer ohonynt yn cael eu trafod gan y Bil. Mae'r gofynion ar gyfer eglurder rôl, mynediad at yr offer cywir, a strategaeth wedi'u nodi'n glir, er bod nodweddion fel diwylliant y sefydliad yn anneddfwriaethol.
- Rydym yn cytuno â'r dyletswyddau cydweithredu cyffredinol yn adran 23. Fel rheoleiddiwr amgylcheddol Cymru, efallai y byddwn yn derbyn ceisiadau i ddarparu symiau sylweddol o wybodaeth a/neu arbenigedd i lywio ymchwiliadau SLIAC i awdurdodau cyhoeddus eraill. Dylai fod gan SLIAC fynediad priodol at arbenigedd i leihau pwysau posibl heb eu hariannu ar CNC a chynyddu annibyniaeth y corff.
- Mae'r darpariaethau o fewn adrannau 20–22 yn ychwanegiad croesawgar i fynd i'r afael â materion systematig a nodwyd sy'n cynnwys nifer o awdurdodau cyhoeddus. Er hynny, lle bo hyn yn wir, efallai y byddai'n werth cynnwys y gallu i SLIAC gyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth cysylltiedig i awdurdodau o dan adran 14 i lywio'r ymchwiliadau hyn.
- Mae gennym bryder parhaus ynghylch y diffiniad o awdurdod cyhoeddus yn adran 30. Er ei bod yn ddealladwy o ystyried y trefniant cyfansoddiadol, ni fydd gan SLIAC gylch gwaith dros awdurdodau cyhoeddus *heb eu datganoli* pan fyddant yn ymgymryd â swyddogaeth *ddatganoledig* o fewn Cymru (oni bai fod Deddf Llywodraeth Cymru yn nodi yn wahanol). Mae cylch gwaith Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd yng Nghymru wedi'i gyfyngu i swyddogaethau *a gedwir yn ôl* yn unig. Felly, dylai SLIAC nodi yn ei strategaeth sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen ag ymchwiliadau lle mae amheuaeth o ddiffyg cydymffurfio gan awdurdod cyhoeddus *heb ei ddatganoli sy'n cyflawni swyddogaeth ddatganoledig*.

- Nodwn fod rhanddeiliaid eraill wedi codi pryderon ynghylch annibyniaeth SLIAC ar Weinidogion. Er nad ydym yn mynegi barn ynghylch sut mae'r corff wedi'i gyfansoddi na sut mae aelodau'n cael eu penodi, nodwyd yn ein hymateb i'r Papur Gwyn yr angen i SLIAC ddangos annibyniaeth ar y llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus. Mae ymddiriedaeth y cyhoedd yn y corff newydd yn gysylltiedig â chyfreithlondeb y sefydliad ac felly hyder yn y camau y mae'n eu cymryd – dylai'r gofynion tryloywder sydd wedi'u cynnwys drwy gydol y Bil helpu gyda hyn.

4. Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl eu rhannau isod)? Yn benodol, a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

- **Rhan 3 – Targedau bioamrywiaeth ac ati (adrannau 33 i 38)**

Rydym yn cefnogi dull Llywodraeth Cymru gyda'r Bil arfaethedig yn llwyr, a hefyd ei gwaith datblygu targedau bioamrywiaeth cyfatebol trwy ei Phanel Cyngori ar Dargedau Bioamrywiaeth annibynnol.

Rydym yn gweld y bydd y Bil a thargedau bioamrywiaeth statudol yn canolbwyntio sylw mewn ffordd gadarnhaol ar adfer natur a champau gweithredu allweddol a hefyd yn ennyn diddordeb a chymorth ehangach ar gyfer camau adfer natur ar draws buddiannau polisi a sectorau eraill.

Bydd targedau statudol yn egluro sut mae Cymru'n bwriadu cefnogi ymrwymadau rhyngwladol ac yn enwedig y rhai o dan y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang. Bydd hefyd yn helpu i roi Cymru mewn gwell aliniad â Lloegr a'r Alban, sydd hefyd yn mabwysiadu dull deddfwriaethol, a, thrwy gymharu, yn galluogi dysgu cydfuddiannol gyda nhw yn ogystal â gwledydd eraill.

Nodwn fod targedau newid hinsawdd wedi darparu sylfaen gref iawn ar gyfer ffocws gwleidyddol a chyhoeddus ar gyfer gweithredu dros yr agenda honno, a oedd gynt yn fwy anghyson o ran sut i ddelio â hi, ac felly rydym yn cefnogi targedau bioamrywiaeth statudol i helpu i ddarparu'r ffocws angenrheidiol a chyflymu camau gweithredu hanfodol yn yr un modd. Bydd angen gosod y targedau hyn yn ofalus yn hyn o beth, a rhoi ystyriaeth hefyd i osgoi'r posibilrwydd o dynnu sylw oddi wrth gamau gweithredu eraill (anstatudol) i wella bioamrywiaeth.

Mae'r pedwar maes blaenoriaeth targed yn ymddangos yn briodol ac yn ymarferol ar gyfer cyflawni'r bwriad polisi datganedig ac mae angen i dargedau daro'r cydbwysedd rhwng bod yn ystyrlon ond yn gyraeddadwy. Rydym yn gweld y pedwar maes blaenoriaeth yn sylfaen gref ar gyfer gweithredu nawr, a hefyd ar gyfer iteriadau dilynol i sicrhau gweithredu synergyddol a chadarnhaol ynghylch anghenion y dyfodol wrth iddynt ddod i'r amlwg. O ran rheoli ecosystemau, rydym yn nodi mai dyma'r targed blaenoriaeth mwyaf defnyddiol mewn cyd-destun morol, yn enwedig o ran gwydnwch ar gyfer rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.

Fodd bynnag, hoffem weld trafodaeth barhaus ynghylch sut y bydd targedau eraill y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang yn cael eu hystyried a'u trin yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ran galluogi a phrif ffrydio'r gyfran o dargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang o Darged 14 ymlaen, gan gynnwys sut y gall busnesau gymryd rhan yn fwy rhagweithiol, cynhyrchu'r cyllid a chapasiti ychwanegol y mae eu hangen ar gyfer adfer natur, ac, yn hollbwysig, mynd i'r afael â chymhellion negyddol ac annog cymhellion cadarnhaol. Mae'r targedau 'galluogi' hyn yn hanfodol ar gyfer cyflymu'r newidiadau trawsnewidiol y mae eu hangen i fynd i'r afael â sbardunwyr anuniongyrchol ac uniongyrchol bioamrywiaeth, fel y manylir yn amrywiol adroddiadau'r Platform Polisi Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Wasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau, megis yr Asesiad Byd-eang, yr Asesiad Nexus a'r Asesiad Newid Trawsnewidiol. Mae'r targedau 'galluogi' hefyd yn hanfodol ar gyfer cefnogi camau gweithredu ar gyfer targedau eraill y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang nad ydynt o fewn cwmpas y Bil ar hyn o bryd, megis Targed 6, sy'n ymwneud â rheoli rhywogaethau estron goresgynnol er enghraifft.

Rydym yn cefnogi cynnwys cynllun gweithredu i nodi sut yr eir ati i gyflawni targedau a sut y darperir adnoddau ar gyfer hyn. Bydd yn hanfodol sicrhau cytundeb trawsadrannol cryf gyda meysydd polisi eraill i wneud y mwyaf o synergeddau ac osgoi gwrthdaro neu ganlyniadau negyddol anfwriadol sy'n codi trwy fecanweithiau cyflawni polisi eraill. Credwn y bydd yn annog gwell cydbwysedd ar draws blaenoriaethau polisi i ymgorffori gofynion gwella natur a chanlyniadau sy'n fuddiol i'r ddwy ochr mewn modd mwy priodol. Weithiau gellir gweld bod blaenoriaethau eraill yn diystyru canlyniadau bioamrywiaeth posibl ac yn methu â gwireddu'r manteision ehangach cysylltiedig sy'n deillio o fanteisio ar gyfleoedd i adfer natur.

Er mwyn cefnogi cyflawniad effeithiol y targed llygredd, rydym yn argymhell ymagwedd ataliol i gefnogi ymyriadau rhagofalus yn unol ag egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r egwyddor amgylcheddol. Rhaid i unrhyw dargedau newydd adeiladu ar rwymedigaethau deddfwriaethol presennol a helpu i hwyluso a chanolbwyntio ar reoli ffynonellau a fyddai'n elwa o reoleiddio gwell yn hytrach na dyblygu targedau presennol. Fel enghraifft, yn achos cemegau, cyflwyno gwaharddiad ar gynhyrchion defnyddwyr sy'n cynnwys sylweddau per- a pholyffloroalcyll (PFASau), a elwir yn 'gemegau am byth', i'w hatal rhag mynd i mewn i'r gadwyn gyflenwi yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae sicrhau bod gennym y gallu i fonitro a rheoli rhyddhau PFASau i'r amgylchedd dŵr drwy gyflwyno safonau ansawdd amgylcheddol hefyd yn rhan bwysig o adeiladu ein tystiolaeth a'n gwybodaeth i fynd i'r afael â llygredd.

Rhaid i'r targedau hefyd hyrwyddo meddwl cydgysylltiedig ar draws cyfundrefnau polisi a defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael yn asesiadau adnoddau naturiol statudol yr (**Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol**) er mwyn helpu i bennu blaenoriaethau.. Rhaid rhoi sylw dyledus hefyd i amcan llesiant CNC yn ein cynllun corfforaethol ar leihau llygredd a sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i weithredu a rheoli targedau llygredd.

5. Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl eu rhannau isod)? Yn benodol, a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

▪ Rhan 4 – Cyffredinol (adrannau 39 i 45 ac Atodlen 4)

Disgwylir sefydlu SLIAC (adran 8) ddau fis ar ôl i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol (adran 44). Dylid gwneud trefniadau addas ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a dderbyniwyd gan Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru yn ystod ei gyfnod yn y swydd, gan gynnwys unrhyw ymchwiliadau agored.

6. Beth yw'r rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Bil ar waith a sut y mae'r Bil yn eu hystyried?

Rhaid cefnogi gweithredu effeithiol drwy integreiddio cryf ar draws diwygiadau parhaus mewn cynllunio, amaethyddiaeth, dŵr, gwastraff a dyfodol rheoli tir er mwyn meithrin cymorth drwy ganlyniadau ar y cyd ac atal gweithredu mewn seilos a chanlyniadau anfwriadol. Mae hyn yn cynnwys yr angen am gysondeb ar draws strategaethau a phrosiectau ehangach fel y Cynllun Gweithredu Adfer Natur pan gaiff hwn ei ddiwygio a Chynllun Sero Net Cymru a'r Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru.

Bydd effeithiolrwydd targedau bioamrywiaeth statudol hefyd yn dibynnu'n fawr ar fuddsoddiad priodol mewn systemau monitro, dehongli data a galluoedd adrodd i gefnogi mecanweithiau gwneud penderfyniadau a chyflawni ynghylch rheoli ac adfer cynefinoedd neu gamau adfer natur eraill.

Er bod manylion ar gyfer targedau arfaethedig yn dal i gael eu datblygu, mae fframweithiau monitro a thystiolaeth effeithiol a fforddiadwy yn hanfodol i olrhain cynnydd. Mae monitro a thystiolaeth effeithiol yn sail i wneud penderfyniadau da ac yn galluogi dull rheoli addasol i ymateb yn gadarnhaol i bwysau fel newid hinsawdd a materion eraill a all ddod yn fwy amlwg dros amser. Mae angen i'r fframweithiau hyn gael eu llywio gan waith gwerthuso anghenion data, adeiladu ar arfer da a setiau data presennol, a nodi anghenion yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys creu cyfleoedd cydweithio gwell, mwy o rolau gwyddoniaeth dinasyddion, a gwneud defnydd gwell o ddatblygiadau technolegol. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru drwy Grŵp Arbenigol Monitro a Thystiolaeth 30 erbyn 30 ar sut i fynd i'r afael â'r heriau hyn. Agwedd allweddol yw canfod a gwerthuso'r camau blaenoriaeth i'w cymryd a datrys rhwystrau ochr yn ochr â blaenoriaethu adnoddau presennol. Gall y broses hon nodi bylchau eraill a allai rwystro cynnydd a allai fod ag anghenion adnoddau ychwanegol.

Mae ystyriaeth ac eglurder o fewn portffolios polisi eraill y Llywodraeth ac ar draws sbectrwm yr awdurdodau cyhoeddus ynghylch cyfrifoldebau priodol a disgwyliadau cysylltiedig yn hanfodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i sut y bydd targedau newydd yn integreiddio â mecanweithiau statudol eraill sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddangosyddion a thargedau cenedlaethol gael eu gosod a'u cyflawni. Mae enghreifftiau allweddol yn cynnwys adran 10(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ynghylch dangosyddion llesiant cenedlaethol, yn ogystal ag adran 4 (1) o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, mewn perthynas â gosod amcanion a thargedau ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy.

7. Pa mor briodol yw'r pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)?

Drwy gydol datblygiad y Bil, rydym wedi cael trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ar yr angen i sicrhau digon o hyblygrwydd a'i gydbwysu â'r angen i leihau amwysedd er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn briodol ac yn 'barod i'r dyfodol'. Mae'r Bil yn cynnwys defnyddio datganiadau a dyletswyddau statudol, gofynion adolygu ac adrodd cyfnodol, disgwyliadau arweiniol, a dyletswydd i ymgynghori sy'n hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd.

8. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn debygol o ddeillio o'r Bil?

Camddehongli neu wanhau'r ddyletswydd "ystyriaeth arbennig".

O dan 6F(2), wrth ymgynghori â chyrrff cyhoeddus sy'n cael eu dynodi'n gyfrifol o dan y targedau, byddai'n arbennig o werthfawr gwneud hyn mewn modd amserol i gyd-fynd â chylchredau cynllunio corfforaethol priodol er mwyn sicrhau bod camau gweithredu ac adnoddau cysylltiedig yn cael eu hystyried ac y darperir ar eu cyfer yn briodol.

9. Beth yw eich barn ar asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau ariannol y Bil fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol?

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cydnabod goblygiadau cost posibl a fyddai'n daladwy gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni ellir mesur yn llawn eto'r goblygiadau llawn o ran adnoddau, yn enwedig ar gyfer targedau bioamrywiaeth, sydd eto i'w datblygu, ac ymgysylltu â'r corff llywodraethu newydd. Er nad ydym wedi nodi anghenion adnoddau newydd penodol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru eto, rydym yn parhau i adolygu hyn gyda Llywodraeth Cymru.

Bydd gweithredu'r egwyddorion yn briodol yn gofyn am ymrwymiad gwirioneddol i fuddsoddiad deddfwriaethol a sefydliadol pellach os ydynt am lywio newid ystyrion – a dylid cydnabod hyn yn glir ar hyn o bryd. Er enghraifft, gellid ystyried mecanweithiau deddfwriaethol pellach yng Nghymru i lywio marchnadoedd amgylcheddol yn seiliedig ar gydymffurfedd rheoleiddiol. Yn yr un modd, gellid llywio gweithrediad marchnadoedd o'r fath gan ddeddfwriaeth i sicrhau bod yr egwyddor ragofalus yn cael ei dilyn yn briodol wrth fynd i'r afael â risgiau yn y farchnad. Wrth wneud hynny, gallai'r egwyddorion lywio marchnadoedd cydymffurfedd ag uniondeb uchel yng Nghymru, gan ddenu buddsoddiad effaith gadarnhaol a chefnogi canlyniadau nodau llesiant. Yn sefydliadol, bydd angen adnoddau ar y rheoleiddiwr priodol i ddatblygu a goruchwyllo marchnadoedd cydymffurfedd o'r fath. Heb ymrwymiad o'r fath i fuddsoddi yn y meysydd hyn, gallai gallu'r egwyddorion i lywio newid go iawn gael ei rwystro.

10. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef neu unrhyw faterion cysylltiedig?

Mae goblygiadau adnoddau posibl yn gysylltiedig â sicrhau aliniad â'r dangosyddion rheoli tir yn gynaliadwy a rôl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wrth ei gyflawni.

Mae'r Bil yn nodi bod *"Cymru" yn cynnwys, i'r graddau y mae polisi yn ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod, yr ardal o barth Cymru sydd y tu hwnt i derfyn atfor y môr tiriogaethol.* Mae'n bwysig nodi mai dim ond hyd at 12 milltir forol y mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a'r rhestr rhywogaethau adran 7 yn berthnasol, a allai arwain at gymhlethdodau os gosodir targedau sy'n ymwneud â rhywogaethau pysgod adran 7.

EPGBTWB 09 - Evidence from: Joint Nature Conservation Committee

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee

Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) | Environment (Principles, Governance and Biodiversity Targets) (Wales) Bill

1. What are your views on the general principles of the Bill, and is there a need for legislation to deliver the stated policy intention?

JNCC supports the intention of the Bill, including the stated environmental objective and principles, the provisions to address the environmental governance gap that has emerged following the UK's exit from the EU, and the framework for establishing statutory biodiversity targets.

From the perspective of JNCC's international remit, putting nature targets on a statutory footing has the potential to help Wales match the urgency and challenge of implementing the Kunming-Montreal Global Biodiversity Framework (GBF) and other multilateral environmental agreements.

Embedding environmental principles into legislation is crucial for ensuring Wales responds to the nature emergency with the seriousness and urgency it demands. By placing the application of the environmental principles duty across all policy-making areas, it will help to ensure environmental protection is integrated across all sectors which is essential if we are to meet both international and domestic commitments and address the nature and climate emergencies. By placing these principles on a statutory footing, they become a stronger lever for guiding consistent, accountable and forward-looking decision-making across all sectors.

The proposed legislation signals Wales' clear commitment to addressing the nature and climate emergencies, ensuring that environmental considerations are not sidelined and are instead integrated into policy and practice, delivering a coherent, cross-government response.

JNCC's response focuses on Part 3 of the Bill, which sets out the framework for establishing statutory biodiversity targets.

2. What are your views on the Bill’s provisions (set out according to Parts below), in particular are they workable and will they deliver the stated policy intention?

- **Part 1 - Environmental objective and principles (sections 1 to 7)**

3. What are your views on the Bill’s provisions (set out according to Parts below), in particular are they workable and will they deliver the stated policy intention?

- **Part 2 - The Office of Environmental Governance Wales (sections 8 to 32 and Schedules 1, 2 and 3)**

4. What are your views on the Bill’s provisions (set out according to Parts below), in particular are they workable and will they deliver the stated policy intention?

- **Part 3 - Biodiversity targets, etc (sections 33 to 38)**

JNCC welcomes the introduction of statutory targets for Biodiversity in Wales. We support the four target areas and their alignment with the wider Global Biodiversity Framework (GBF). We are encouraged to see that the Bill outlines that the GBF targets will guide how Welsh Ministers develop biodiversity targets. Careful consideration should be given to the GBF targets and the commitments set out in the UK’s National Biodiversity Strategy and Action Plan (NBSAP) when setting Wales’ statutory targets. JNCC supports the notion of aligning the monitoring and reporting introduced through this Bill with the monitoring framework of the GBF, allowing for streamlined reporting at both national and international levels.

Statutory targets will, however, succeed or fail on the efficacy of the policies that underpin them. In our cross-UK positioning, JNCC aims to act as a “policy lab” that tracks emerging biodiversity policy and legislation across the four nations, enabled by devolution, and provides the comparative analysis and predictive modelling capabilities to evaluate which approaches produce effective outcomes for

biodiversity. This objective is articulated in our 2030 strategy – ‘Together for Nature’. The emergence of statutory nature targets across Wales, Scotland, and England puts each nation in a position to capitalise on JNCC’s birds-eye view and expertise to learn which frameworks and implementation approaches from across the UK are effective and adapt accordingly.

In support of this, JNCC are working to evolve the UK-level biodiversity indicator suite to enable disaggregation of the data for each nation, where possible, and to be sufficiently sensitive to allow for comparison of the policy outcomes between them. Additionally, JNCC has been an active member of the Biodiversity Targets Advisory Panel, providing evidence to support decision-making around target priority areas. We are working closely with Welsh Government to undertake a gap analysis of biodiversity indicators, to support the production of a monitoring framework for reporting on Wales’ statutory targets. Alongside this, JNCC is undertaking predictive modelling to provide evidence to inform Welsh Government in defining ambitious but feasible statutory targets.

In summary, JNCC welcomes the Bill’s provisions regarding biodiversity targets in Wales, and supports the setting of evidence-based, ambitious targets to drive change and address the nature and climate emergencies.

5. What are your views on the Bill’s provisions (set out according to Parts below), in particular are they workable and will they deliver the stated policy intention?

- **Part 4 - General (sections 39 to 45 and Schedule 4)**

6. What are the potential barriers to the implementation of the Bill’s provisions and how does the Bill take account of them?

Monitoring and evaluating progress against environmental targets presents significant challenges, particularly given the complexity and interconnectedness of environmental systems. Traditional status-based indicators, while essential, can lack the responsiveness needed to inform timely adaptive policy interventions. To address this, there is a pressing need for a more comprehensive suite of indicators that includes not only environmental status but also pressures-based and actions-based measures. These can help track the drivers of change and the effectiveness of interventions. Furthermore, effective delivery requires robust local monitoring

and evaluation mechanisms that can capture spatial variation, inform place-based decision-making, and support adaptive management. Strengthening these elements is critical to ensuring that setting biodiversity targets leads to tangible outcomes on the ground.

7. How appropriate are the powers in the Bill for Welsh Ministers to make subordinate legislation (as set out in Chapter 5 of Part 1 of the Explanatory Memorandum)

8. Are any unintended consequences likely to arise from the Bill?

9. What are your views on the Welsh Government's assessment of the financial implications of the Bill as set out in Part 2 of the Explanatory Memorandum?

10. Are there any other issues that you would like to raise about the Bill and the accompanying Explanatory Memorandum or any related matters?

Eitem 4

EPGBTWB: Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth)
(Cymru)

EPGBTWB 16 - Tystiolaeth gan: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith | Climate Change,
Environment, and Infrastructure Committee

Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau
Bioamrywiaeth) (Cymru) | Environment (Principles, Governance and
Biodiversity Targets) (Wales) Bill



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

1^{af} Gorffennaf 2025

Annwyl Llyr

Diolch am y cyfle hwn i ymateb i ymholiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru).

Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig hon yn amlinellid o fy ystyriaethau cychwynnol ar y Bil drafft a sut mae'n ymateb i'm cyngor a'm hargymhellion ar y Papur Gwyn. Tra bod fy ngwaith yn y maes hwn yn parhau, dyma fy mhrif ystyriaethau:

Yn gyffredinol: Rwy'n cefnogi bwriad y Bil a hoffwn ei weld yn symud ymlaen i gydsyniad brenhinol yn nhymor y Senedd hwn heb oedi gormodol.

Ar y dyletswyddau: Rwy'n croesawu fy rôl fel ymgynghorai statudol ar ddatganiad arfaethedig Llywodraeth Cymru ar y ddyletswydd. Mae'n bwysig bod y datganiad yn glir ynglŷn â chyflawni'r ddyletswydd, yn dileu'r risg o ddryswch rhyngddo â dulliau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o weithio, ac yn glir bod y ddyletswydd yn berthnasol i bob maes llunio polisi.

Ar y Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLIAC) newydd: Mae eu hannibyniaeth, a chael eu gweld yn annibynnol, yn hanfodol a dylid nodi hyn ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, dylid archwilio unrhyw gyfle i symleiddio costau trwy rannu swyddogaethau cefn-swyddfa gyda chorff priodol arall, o ystyried y pwysau ar y sector cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf.

O ran y targedau: Mae angen targed hirdymor sydd wedi'i gyfyngu o ran amser ac sy'n addas ar gyfer y dyfodol gyda thargedau interim. Hoffwn weld hyn ar wyneb y Bil, ond yn absenoldeb hynny dylai'r Bil o leiaf osod amserlen yn nodi erbyn pryd y byddai angen cyflawni targed neu dargedau o'r fath.

Rhan 1: Yr Egwyddorion Amgylcheddol

Yr Amcan Amgylcheddol

Yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn, ysgrifennais at Lywodraeth Cymru gyda fy nisgwyliadau o'r Bil ac rwy'n falch bod rhywfaint o'm cyngor wedi'i ystyried.

Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, diffinio datblygu cynaliadwy ar frig y Bil yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac alinio ymhellach â geiriad y nod Cymru Gydnerth, prif ymrwymiad Cymru i natur. Dyma sy'n diffinio Amcan Amgylcheddol y ddeddfwriaeth ddrafft ac sy'n ymateb i fy nghyngor na ddylai'r egwyddorion amgylcheddol fod uwchlaw'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rwy'n croesawu'r ffaith bod yr Amcan Amgylcheddol yn ymestyn i gyfrannu at bob un o'r

Nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan fod hyn yn pwysleisio'r angen i feddwl drwy systemau yn ein hymagwedd tuag at ddiogelu ac adfer natur. Mae'r Nodau Llesiant yn set ategol ac integredig o uchelgeisiau a rennir, na fedrant ac na ddylent weithio ar eu pen eu hunain. Yng Nghymru, mae pob un o'r pedwar dimensiwn llesiant yn derbyn pwysau cyfartal drwy gydol y Nodau Llesiant (amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol). Mae'n bwysig bod ein gwaith i sicrhau cydnerthedd ecosystemau yng Nghymru yn cydweddu â chyflawni'r holl Nodau Llesiant. Tra nad oes angen iddo dynnu sylw'r amcan amgylcheddol oddi wrth ei ddiben craidd, mae yn siarad o blaid integreiddio a chydweithio ar draws holl bolisi datganoledig wrth gyflawni'r diben hwn.

Dyletswyddau i gydfynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Euthum i chwilio am sicrwydd ar alinio'r ddyletswydd i weithredu'r egwyddorion amgylcheddol mewn modd a oedd yn cydweddu â'r ddyletswydd i weithredu pum dull o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn sicrhau eu bod yn cydfynd yn dda â chyd-destun cyfreithiol Cymru. Mae enghreifftiau penodol o ddryswch posibl yn ymwneud ag atal ac integreiddio. Felly, rwy'n croesawu'r gofyniad statudol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi datganiad yn nodi sut y dylai cyrff cyhoeddus ystyried yr egwyddorion amgylcheddol a gweithredu'r ddyletswydd i wneud diogelu'r amgylchedd yn rhan o lunio polisi. Rwy'n croesawu'n arbennig fod y Bil yn cynnwys rôl i mi fel ymgynghorai statudol ar y datganiad hwn, ochr yn ochr â Cyfoeth Naturiol Cymru a'r corff llywodraethiant amgylcheddol newydd arfaethedig,

Gweithredu'r dyletswyddau

Yn ei ffurf bresennol, mae'r dyletswyddau a nodir yn y Bil yn berthnasol i lunio polisiau a *allai* gael effaith ar yr amgylchedd. Gellir dadlau bod hyn yn creu cyfle i ddehongli mewn gwahanol ffyrdd yr hyn a fyddai neu na fyddai'n cael ei gynnwys. Hoffwn weld yr amwysedd hwn yn cael ei ddileu, naill ai ar y Bil neu o leiaf hoffwn weld eglurhad yn natganiad Llywodraeth Cymru ei fod yn wir berthnasol i bob maes polisi fel y mae'n berthnasol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru; dyna'r bwriad yn ôl yr hyn a ddeallaf.

Hefyd, roeddwn wedi galw ar i'r dyletswyddau sy'n ddarostyngedig i'r Bil fod yn berthnasol i unrhyw sefydliad sy'n gwneud polisiau ar ran Llywodraeth Cymru ac rwy'n croesawu'r cynhwysiad hwn.

Rhan 2: Y Corff Llywodraethiant Arfaethedig

Cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Rwy'n croesawu cynhwysiad fy argymhelliad bod y Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru newydd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Edrychaf ymlaen at gefnogi'r Corff newydd i ymgymryd â'r dyletswyddau hynny.

Hoffwn weld SLIAC a'm swyddfa innau yn cydweithio'n effeithiol wrth gyflawni ein rolau neilltuol. Fy argymhelliad oedd sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng ein dau sefydliad ac, er nad yw hyn yn y testun drafft, credaf yr eir i'r afael â hynny'n rhannol gan y gofyniad i strategaeth SLIAC nodi sut y bydd yn osgoi gorgyffwrdd â gwaith cyrff eraill, sy'n enwi fy swyddfa i (fel y'i rhestrir yn Atodlen 2 i'r Bil). Os digwydd i'r cymal hwn gael ei ddileu am unrhyw reswm yna hoffwn weld gofyniad amgen i'r perwyl hwn. Mae hefyd yn galonogol gweld bod y teitl 'Comisiynwyr' wedi'i ollwng ar gyfer Aelodau'r Corff newydd i helpu i wahaniaethu rhwng ein dau sefydliad.

Annibyniaeth

Fy marn i yw bod yn rhaid i'r corff fwynhau annibyniaeth, yn awr ac o dan lywodraethau'r dyfodol. Er mwyn diogelu hyn ar gyfer y dyfodol, byddai'r ddeddfwriaeth yn elwa o ddatganiad sy'n gwneud yn glir bod y corff yn annibynnol ar Weinidogion Cymru yn ôl priodoldeb.

Costau

Pryder rydw i wedi'i godi o'r blaen yw y gallai darparu adnoddau i gorff newydd fod yn broblem o ystyried bod cyllid cyhoeddus eisoes dan bwysau. Tra bod ei annibyniaeth yn hanfodol, rwy'n argymhell bod yn rhaid ystyried cyfleoedd i symleiddio costau. Mae hefyd yn hanfodol bod eglurder llwyr mewn cyfathrebu yn yr arena gyhoeddus ynghylch pam mae'r corff newydd yn angenrheidiol a sut mae'n wahanol i unrhyw beth sy'n bodoli ar hyn o bryd, a pham na all cyrff eraill gyflawni'r dyletswyddau fel y'u nodir.

Rhan 3: Y Targedau

Prif darged

Yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol, a gyhoeddwyd ar Ebrill 29^{ain}, galwais am brif darged ar wyneb y Bil. Mae sawl rheswm am gofyniad hwn:

- Cael targed ar gyfer adferiad natur a fydd yn cael effaith ar unwaith - yn hytrach nag aros i ddeddfwriaeth eilaidd gael ei phasio.
- Anfon neges glir am yr hyn y mae'r Bil hwn yma i'w wneud, a'r modd y mae'n bwriadu gwneud hyn ar frys,
- Sicrhau bod unrhyw lywodraeth yn y dyfodol wedi'i chyfyngu o ran amser i sicrhau adferiad natur,
- Gyrru gweithredu cydweithredol ac integredig tuag at adferiad natur yn yr un modd ag yr ydym wedi gweld y targed Sero Net erbyn 2050 yn gyrru datgarboneiddio, lle mae gan bawb, pob sefydliad a phob busnes ran i'w chwarae.

Rwy'n siomedig bod y Garreg Filltir Dangosydd Cenedlaethol i atal dirywiad bioamrywiaeth erbyn 2030 a'i gweld yn adfer erbyn 2050, a gynigiwyd fel prif darged cyffredinol, wedi'i dileu o'r testun drafft yn gyfan gwbl. Yn wir, nid oes targed statudol yn y ddeddfwriaeth i nodi uchelgais y Bil yn glir mewn dull sydd wedi ei chyfyngu o ran amser.

Rwy'n cydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â diffinio un targed sy'n cwmpasu'r ystod lawn o flaenoriaethau y mae'r ddeddfwriaeth yn anelu at fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, efallai na fydd angen i brif darged wneud hyn. Yr hyn sydd angen iddo ei wneud yw adrodd stori glir sy'n diffinio'r ddeddf a dod â phobl at ei gilydd ar y daith honno. Un dangosydd clir o iechyd bioamrywiaeth yw rhywogaethau niferus, rhywbeth yr ydym yn gwybod sydd yn dirywio ar hyn o bryd ar raddau argyfyngus ar draws nifer o rywogaethau brodorol allweddol.

I'r perwyl hwn, rwy'n cefnogi'r dull o fynd ati a gyflwynwyd gan Cyswllt Amgylchedd Cymru yn eu cyfres o [bapurau briffio](#) yn nodi y dylid defnyddio niferoedd rhywogaethau fel prif ddull allweddol o fesur sut mae bioamrywiaeth yn ffynnu. Mae cynsail eisoes ar gyfer y mesur hwn mewn manau eraill yn y DG, gydag angen am ddyddiadau targed interim a thymor hwy.

Mae hepgor targed ar y Bil yn golygu gadael y dasg o osod yr holl dargedau i dymor nesaf y Senedd. Bydd pedair blynedd arall cyn i ni gael y targedau hynny - gyda'r disgwyliad y byddai'n digwydd dair blynedd ar ôl cydsyniad brenhinol - yn mynd â ni i 2029 cyn i ni gael un targed. O ganlyniad rydym mewn perygl o fethu â chyflawni ein hymrwymiaadau i 30x30.

Yn ychwanegol at yr oedi hyn, mae bregusrwydd pellach yn deillio o'r amhendrantrwydd ynglŷn â blaenoriaethau unrhyw lywodraeth newydd yng Nghymru.

Cyfres ehangach o dargedau

Mae'n siomedig na ellir cyflymu'r broses o ddatblygu'r gyfres ehangach o dargedau o ystyried bod ymgyfraniad da eisoes yn y darn hwn o waith. Fy marn i o hyd yw y buasem yn hoffi gweld y targedau'n cael eu gosod o fewn 12 mis i gydsyniad brenhinol, hyd yn oed os ydyw hyn yn golygu y byddai angen ailedrych arnynt yn gynt nag fel arall.

Fodd bynnag, rwy'n croesawu'r ddyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru i osod targedau mewn deddfwriaeth eilaidd mewn perthynas â phedwar maes blaenoriaeth:

- (a) lleihau'r risg o ddifodiant rhywogaethau brodorol;
- (b) rheoli ecosystemau'n effeithiol;
- (c) lleihau llygredd;
- (d) ansawdd y dystiolaeth i drwytho penderfyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad i'r dystiolaeth honno, a'r defnydd ohoni a'i gweithrediad.

Yn fy ymateb i'r Papur Gwyn, galwais ar i'r gyfres lawn o dargedau sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF) gael eu hystyried wrth osod targedau Cymru. Maent wedi'u rhannu i'r rhai sydd:

- Yn lleihau bygythiadau i fioamrywiaeth (8 targed GBF)
- Yn diwallu anghenion pobl drwy ddefnydd cynaliadwy a rhannu manteision (5 targed GBF)
- Offer a datrysiadau ar gyfer gweithredu a phrif ffrydio (9 targed GBF)

Rwy'n falch bod y ddeddfwriaeth i ryw raddau yn siarad o blaid pob rhan o'r GBF gan gynnwys drwy brif ffrydio bioamrywiaeth i bob polisi (T14 y GBF) a'i bod yn caniatáu gosodiad set llawer ehangach o dargedau a allai gwmpasu mwy o dargedau tebyg i'r GBF.

Rhaid i'r gyfres ehangach hon o dargedau, pan fydd mewn grym, helpu i yrru'r defnydd o'r pum dull o weithio wrth gyflawni dros natur drwy sicrhau bod yr offer, yr ysgogiadau a'r prosesau cywir yn cael blaenoriaeth. Gellir gweld y defnydd o'r pum dull o weithio yn y Bil; er enghraifft, y gofyniad i gynnwys ymgyfraniad arbenigwyr wrth osod targedau; yr egwyddorion sy'n argymhell atal a rhagofalu a'r gofyniad i wneud diogelu'r amgylchedd yn rhan o bob polisi.

Yr hyn y gallai'r gyfres ehangach o dargedau GBF gynorthwyo i'w cyflawni yw gyrru ymgyfraniad ehangach, cydweithio a meddwl hirdymor wrth i ni gyflawni dros natur yng Nghymru, gan adeiladu ar y dyletswyddau presennol ar y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Dyletswyddau perthnasol i'r targedau


Mae'r Bil drafft yn nodi rhai cyfrifoldebau clir i Weinidogion Cymru mewn perthynas â thargedau. Rwy'n croesawu'r gofyniad newydd i Weinidogion Cymru gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, a'r bygythiadau iddi. Mae angen i'r ddeddfwriaeth hon gyrraedd cymdeithas ehangach, i ennyn ymgyfraniad pobl a rhoi llais i natur sy'n cyfateb i'r hyn a gyflawnwyd ar gyfer newid hinsawdd - lle mae'r prif darged o gyrraedd sero net erbyn 2050 wedi gwneud llawer o'r gwaith trwm.

I Weinidogion Cymru, mae dyletswydd bellach i wella eu dyletswyddau adrodd o dan Adran 6 i gynnwys cynllun o'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth, yn ogystal â monitro ac adrodd ar gynnydd, a dyletswydd i baratoi adroddiad gwerthuso ar ba mor effeithiol y mae hyn wedi bod.

Fodd bynnag, yn ei ffurf bresennol, mae'n parhau i fod yn aneglur sut y disgwylir i gyrrff cyhoeddus y tu allan i Lywodraeth Cymru gyfrannu at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth, neu adrodd ar eu cyfraniad. Mae'r Bil yn cynnig pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi a mynnu bod cyrff cyhoeddus penodol yn cyfrannu at dargedau penodol, felly ni fyddwn yn gwybod beth yw'r goblygiadau hyn nes bod y ddeddfwriaeth eilaidd wedi dod i rym. Mae hyn hefyd yn debygol o olygu na fydd gofyniad ar y sector cyhoeddus ehangach i gyfrannu at dargedau natur cyn y dyddiad cau 30x30, sy'n gyfle a gollwyd.

Mae fy ngwaith i ddeall ymarferoldeb y Bil yn y sector cyhoeddus ehangach yn parhau. Bydd fy nhîm yn archwilio hyn ymhellach gyda chydweithwyr yn y sector cyhoeddus mewn gweminar ar 9^{fed} Gorffennaf. Y digwyddiad yw fy nghyfraniad i Wythnos Natur Cymru eleni lle byddwn yn cyd-gynnal trafodaeth gydag aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru sydd wedi ymgyfrannu yn natblygiad y Bil hwn. Byddwn yn falch i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar hyn yn fy sesiwn tystiolaeth lafar a drefnwyd ar gyfer 17^{eg} Gorffennaf.

Yr eiddoch yn gywir



Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change & Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/1575/25

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
SeneddClimate@senedd.wales

7 Gorffennaf 2025

Annwyl Llŷr

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 13 Mehefin yn amgáu Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith '*Gwrandawriad cyn penodi: 'Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru'*'.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu cyn penodi ar yr ymgeisydd a ffefir, Mr Nilesh Sachdev ac am gyhoeddi ei adroddiad yn brydlon. Rwy'n falch o weld y Pwyllgor yn cymeradwyo penodi Mr Sachdev i rôl Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

O ran y pryderon a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor, rwyf wedi ceisio sicrwydd ychwanegol o ymrwymiad amser Mr Sachdev, felly rwy'n fodlon ei fod yn gallu bodloni gofynion y rôl.

Bydd fy swyddogion a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi Mr Sachdev gyda rhaglen gynefino a hyfforddi wedi'i theilwra i'w helpu i ddatblygu dealltwriaeth fwy a dyfnach o Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â gweithredu yng nghyd-destun Cymru. Bydd y rhaglen hon yn cael ei chychwyn, pan gaiff ei benodi'n ffurfiol h.y. cyn iddo gyrraedd yn ffurfiol, a bydd yn parhau ar ôl iddo gyrraedd fel Cadeirydd ym mis Tachwedd.

Rwyf felly wedi gwneud y penderfyniad i benodi Mr Sachdev yn Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor eto am eich amser wrth gynnal y gwrandawriad cyn penodi. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor gadw hyn yn gyfrinachol nes i mi ei gyhoeddi.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.huw.irranca-davies@llyw.cymru
correspondence.huw.irranca-davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 105

Eitem 5.2

Huw Irranca-Davies AS/MS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate
Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cif: PO HID 331 25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

7 Gorffennaf 2025

Annwyl Mike

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, roeddwn am roi gwybod ichi y cynhaliwyd cyfarfod arall o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar 23 Mehefin 2025.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Jim Fairlie MSP, Gweinidog Amaethyddiaeth a Chysylltedd Llywodraeth yr Alban, a oedd yng nghwmni Mairi Gougeon MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig, Diwygio Tir ac Ynysoedd a Gillian Martin MSP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Weithredu yn yr Hinsawdd ac Ynni hefyd ar gyfer Llywodraeth yr Alban. Roedd

Andrew Muir MLA, Gweinidog Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a Caoimhe Archibald MLA, Gweinidog yr Economi yn bresennol ar gyfer Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Cynrychiolwyd Llywodraeth y DU gan Steve Reed AS, Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Mary Creagh AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Natur, y Farwnes Sue Hayman, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a Daniel Zeichner AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddiogelwch Bwyd a Materion Gwledig.

Rwyf wedi cyhoeddi Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig sy'n crynhoi'r trafodaethau.

Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar hyn o bryd ar gyfer 8 Medi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS/MS

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 106

Huw Irranca-Davies AS,
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

8 Gorffennaf 2025

Annwyl Huw,

Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 26 Mehefin i roi tystiolaeth ar Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) (y Bil). Er mwyn cefnogi ein gwaith craffu ar y Bil ymhellach, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r cwestiynau isod.

Rhan 1: Amcan amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol

Dyletswydd i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol

Mae adrannau 3 a 4 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i roi 'sylw arbennig' i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi o ran Cymru. At ddiben adrannau 3 a 4, mae "polisi" yn cynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth, ond nid yw'n cynnwys penderfyniad gweinyddol mewn perthynas â pherson penodol neu achos penodol.

At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

"gall rhai awdurdodau cyhoeddus ddatblygu cynigion polisi ar gyfer Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â meysydd penodol. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried fesul achos o ran a fyddent yn dod o fewn cwmpas proses llunio polisi Gweinidogion Cymru, fel y'i diffinnir gan y Bil."

1. Allwch chi egluro a yw 'llunio polisi' i fod i gwmpasu allbynnau gan Lywodraeth Cymru nad ydynt yn ddeddfwriaeth i bob pwrpas (megis canllawiau, datganiadau, cyfarwyddydau a chodau ymddygiad anstatudol).

2. Pa feini prawf fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu a yw cynigion polisi sy'n cael eu datblygu gan awdurdodau cyhoeddus yn dod o fewn cwmpas proses llunio polisi Gweinidogion Cymru?

Mae adran 5 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus (a ddiffinnir yn is-adran (4)) i roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol wrth gyflawni swyddogaethau mewn cysylltiad ag Asesiadau Amgylcheddol Strategol, ac i integreiddio trefniadau diogelu'r amgylchedd i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

3. Yn ymarferol, pa gyfran o awdurdodau cyhoeddus a ddiffinnir yn adran 5(4) sy'n 'awdurdodau cyfrifol' o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, ac felly y mae'n ofynnol iddynt ymgymryd ag Asesiadau Amgylcheddol Strategol?

4. Pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn cydymffurfio â hi? Sut mae'r Bil yn darparu ar gyfer hyn?

Datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd

Mae adran 7 yn nodi'r gofynion gweithdrefnol ar gyfer y 'datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd' (y 'datganiad'). Mae adran 7(1) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn cyhoeddi'r datganiad, ymgynghori â phersonau penodedig. Mae adran 7(2) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r datganiad gerbron Senedd Cymru.

Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth i'r Senedd graffu ar y datganiad. Mewn cyferbyniad, mae deddfwriaeth y DU a'r Alban yn rhoi cyfle i'r Seneddau priodol graffu ar ddogfennau tebyg (h.y. datganiad polisi Llywodraeth y DU ar egwyddorion amgylcheddol a chanllawiau Llywodraeth yr Alban ar egwyddorion amgylcheddol a dyletswyddau cysylltiedig).

5. Pam ydych chi wedi dewis peidio â gwneud darpariaeth i'r Senedd graffu ar y datganiad, o ystyried ei arwyddocâd?

Rhan 2: Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLIAC)

Sefydlu SLIAC

7. Wrth ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 26 Mehefin, gwnaethoch amcangyfrif y byddai SLIAC yn gwbl weithredol rhwng 18 a 24 mis ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol. Allwch chi roi rhagor o fanylion am yr amserlen waith arfaethedig, gan gynnwys cerrig milltir allweddol?



8. Sut y byddwch yn sicrhau trosglwyddiad llyfn o fesurau interim diogelu'r amgylchedd, dan arweiniad Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, i SLIAC sy'n gwbl weithredol?

Ymchwiliadau a hysbysiadau cydymffurfio

Mae adran 15 o'r Bil yn darparu y caiff SLIAC ymchwilio i benderfynu a yw awdurdod cyhoeddus *yn methu, neu wedi methu ar unrhyw adeg*, â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Fodd bynnag, dim ond os yw'n ystyried bod yr awdurdod cyhoeddus *yn methu* â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol y caiff SLIAC gyflwyno hysbysiad cydymffurfio (o dan adran 16).

9. Allwch chi egluro pam mae angen y pŵer i SLIAC ymchwilio i achosion hanesyddol o ddiffyg cydymffurfio os nad yw SLIAC yn gallu cymryd camau gorfodi wedi hynny?

Ystyr "cyfraith amgylcheddol"

Mae adran 29 yn darparu ystyr "cyfraith amgylcheddol". Mae adran 29(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddarparu bod darpariaeth ddatganoledig a bennir yn y rheoliadau o fewn, neu nad yw o fewn, y diffiniad o "cyfraith amgylcheddol" (ac felly o fewn cwmpas SLIAC). Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae hyn "er mwyn sicrhau bod modd diogelu'r diffiniad o gyfraith amgylcheddol at y dyfodol a'i ddiweddarau gyda'r datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â pholisi rhyngwladol a domestig".

Mae adran 46 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn darparu pŵer tebyg i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r diffiniad o "cyfraith amgylcheddol" o dan y Ddeddf honno. Cyn gwneud rheoliadau, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (sy'n cyfateb i SLIAC) ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

10. Allwch chi ymhelaethu ar pam yr ydych yn ystyried bod angen y pŵer yn adran 29(4) o'r Bil?

11. Pa feini prawf fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu a yw darpariaeth ddatganoledig o fewn, neu nad yw o fewn, y diffiniad o 'gyfraith amgylcheddol' wrth arfer y pŵer o dan adran 29(4)?

12. Pa ystyriaeth a roesoch i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn gwneud rheoliadau o dan adran 29(4)?

Swyddogaethau sy'n gorgyffwrdd

Yn ystod eich ymddangosiad ger ein bron ar 26 Mehefin 2025, gwnaethom eich holi am orgyffwrdd posibl rhwng swyddogaethau SLIAC a Phwyllgor Newid Hinsawdd y DU (UKCCC). Dywedoch:

"we're confident...that there's going to be limited overlap between the OEGW and the UK Climate Change Committee. They're established under different legislative frameworks, and they have fundamentally different purposes."

Fodd bynnag, mae'r Papur Gwyn yn tynnu sylw at risg y gallai swyddogaethau monitro targedau SLIAC ddyblygu swyddogaethau cyrff eraill, fel yr UKCCC.

13. Allwch chi egluro a yw'r Bil yn galluogi SLIAC i fonitro'r targedau newid hinsawdd a osodir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, cyflwyno adroddiadau arnynt a rhoi cyngor arnynt?

14. O ystyried nad yw'r UKCCC wedi'i restru ym mharagraff 1(1)(e) o Atodlen 2, sut mae'r Bil yn sicrhau y bydd y 'gorgyffwrdd cyfyngedig' mewn swyddogaethau rhwng SLIAC a'r UKCCC yn cael ei reoli'n effeithiol?

15. Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a'r UKCCC lunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar sut maent yn bwriadu cydweithredu. Pa ystyriaeth wnaethoch chi ei rhoi i gynnwys darpariaeth debyg yn y Bil?

Perthynas â chyrrff llywodraethiant amgylcheddol eraill

16. Ydych chi'n rhagweld y bydd SLIAC yn gweithio mewn cydweithrediad â Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, er enghraifft, os yw mater yr ymchwiler iddo o dan adran 15 hefyd yn cyffwrdd â chyfraith amgylcheddol 'a gedwir yn ôl'?

17. Mae'n ofynnol i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a Safonau Amgylcheddol yr Alban ymgynghori â swyddogion cyfatebol yng ngwledydd eraill y DU os ydynt yn ystyried y gall arfer eu swyddogaethau mewn ffordd benodol fod yn berthnasol i arfer swyddogaethau eu swyddogion cyfatebol. Pam ydych chi wedi dewis peidio â gosod gofyniad cyfatebol ar SLIAC?

Hysbysiadau cydymffurfio

Mae adran 16 yn galluogi SLIAC i gyflwyno hysbysiad cydymffurfio i awdurdod cyhoeddus os yw'n ystyried bod yr awdurdod yn methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Rhaid i'r hysbysiad cydymffurfio bennu un neu ragor o gamau y mae rhaid i'r awdurdod eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r methiant a'r cyfnod y mae rhaid cymryd pob cam ynddo. Rhaid i'r cyfnod a bennir fod o leiaf 30 o ddiwrnodau o'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad.

Mae adran 17 yn galluogi SLIAC i gyflwyno hysbysiad cydymffurfio 'brys' pan fo'n ystyried bod angen i bob cam gweithredu "gael ei gymryd ar frys er mwyn atal neu liniaru risg bod niwed difrifol ar fin digwydd i'r amgylchedd neu i iechyd pobl". Caiff yr hysbysiad bennu camau gweithredu sydd i'w cymryd o fewn cyfnod o 7 i 30 o ddiwrnodau.

Mae adran 18 yn gwneud darpariaeth i SLIAC adolygu hysbysiadau cydymffurfio, gan gynnwys hysbysiadau cydymffurfio 'brys'. Mae'n ofynnol i SLIAC adolygu unrhyw hysbysiad o'r fath os gofynnir iddi wneud hynny gan yr awdurdod cyhoeddus y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo. Er nad yw'r Bil yn pennu'r rhesymau dros ofyn am adolygiad, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod rhaid i'r rhesymau "fod yn sylweddol ac nid yn wacsaw".



18. Pam ydych chi'n ystyried ei bod yn angenrheidiol galluogi SLIAC i gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio 'brys'?
19. O dan ba amgylchiadau ydych chi'n rhagweld y bydd hysbysiad cydymffurfio 'brys' yn cael ei ddyroddi? Allwch chi ddarparu enghraifft/enghreifftiau?
20. Pam ydych chi'n ystyried ei bod yn angenrheidiol galluogi awdurdod cyhoeddus i ofyn am adolygiad o hysbysiad cydymffurfio?
21. Pam ydych chi wedi dewis peidio â phennu yn y Bil y rhesymau dros ofyn am adolygiad?
22. Oes perygl y gallai cais am adolygiad o hysbysiad cydymffurfio 'brys' oedi camau gweithredu y mae angen eu cymryd "ar frys er mwyn atal neu liniaru risg bod niwed difrifol ar fin digwydd i'r amgylchedd neu i iechyd pobl"? Sut mae'r Bil yn diogelu rhag hyn?

Rhan 3: Targedau bioamrywiaeth

Gosod targedau

Mae'r Bil yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gosod neu ddiwygio targedau bioamrywiaeth, fod wedi'u bodloni y gellir cyflawni'r targedau hynny (adran newydd 6D o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Deddf 2016) i'w mewnosod gan adran 33).

23. Oes perygl y bydd hyn yn arwain at dargedau llai uchelgeisiol?
24. Yn ymarferol, sut y bydd Gweinidogion Cymru yn bodloni eu hunain y gellir cyflawni targedau arfaethedig?
25. Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddirymu neu ostwng targedau. Pam ydych chi'n ystyried bod angen y pŵer hwn?

Mae'r Bil yn nodi'r amgylchiadau y gellir dirymu neu ostwng targed odanynt (adran newydd 6H o Ddeddf 2016 i'w mewnosod gan adran 33), gan gynnwys:

"oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau ers i'r targed presennol gael ei osod, y byddai costau amgylcheddol, costau cymdeithasol, costau economaidd neu gostau eraill cyrraedd y targed yn anghymesur â'r buddion".

26. Yn ymarferol, sut y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a fyddai costau amgylcheddol, costau cymdeithasol, costau economaidd neu gostau eraill cyrraedd targed yn anghymesur â'r buddion?

Dynodi awdurdodau cyhoeddus

Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi mewn rheoliadau awdurdodau cyhoeddus y mae rhaid iddynt gymryd camau i gyfrannu at gyflawni'r targed(au) (adran newydd 6F o Ddeddf 2016 i'w mewnosod gan adran 33).

27. Pa feini prawf y bydd Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio i benderfynu a ddylid dynodi awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â tharged?

28. Oes bwriad i osod rheoliadau ar yr un pryd sy'n gosod targedau o dan adran newydd 6B ac sy'n dynodi awdurdodau cyhoeddus perthnasol o dan adran newydd 6F?

Y cynlluniau adran 6 newydd (o dan Ddeddf 2016)

Roedd cynnig y Papur Gwyn ar gyfer "Strategaeth Adfer Natur hirdymor statudol i Gymru yn amlinellu'r dull o gyflawni'r targedau statudol yn ogystal ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang". Nid oes darpariaeth yn y Bil ar gyfer strategaeth o'r fath, ond yn hytrach gofyniad ar Weinidogion Cymru i nodi yn eu cynllun adran 6 (o dan Ddeddf 2016) y camau y maent yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y targedau bioamrywiaeth yn cael eu bodloni a phryd maent yn bwriadu cymryd y camau hynny. Wrth ymddangos gerbron y Pwyllgor, gwnaethoch esbonio bod y dull wedi newid fel hyn er mwyn osgoi dyblygu, gan ychwanegu:

"The section 6 plan will serve as the Welsh biodiversity strategy...This provides that clear, strategic pathway for us, for public bodies, for stakeholders and wider society to seek that reversal of biodiversity decline. It's very transparent, it's very effective in terms of monitoring and evaluation, and we can track progress through it."

29. Pa gyfle fydd i randdeiliaid ddylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r cynllun adran 6 newydd? Sut mae'r Bil yn darparu ar gyfer hyn?

30. Allwch chi egluro a fwriedir i'r cynllun adran 6 gymryd lle'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur?

- Os felly, a fwriedir i'r cynllun adran 6 gynnwys camau gweithredu ehangach mewn ymateb i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang?
- Os nad dyma'r bwriad, allwch chi esbonio sut y bydd y cynllun adran 6 a'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn ymwneud â'i gilydd?

Byddai'n ddefnyddiol cael ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn 5 Awst fan bellaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Cofion,





Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon